Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

28 Medi 2021

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich adroddiad ar 23 Medi ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Fe welwch fy ymateb i'ch argymhellion yn Atodiad A.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

Argymhelliad	**Ymateb**
Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i geisio cytundeb i ddiwygio Bil y DU i ddisodli'r pwerau 'cydredol plws' â phwerau i weinyddiaethau'r DU wneud rheoliadau ar y cyd wrth weithredu polisïau ledled y DU. Dylai'r rheoliadau hyn fod yn destun gwaith craffu gan bob un o ddeddfwrfeydd y DU	**Gwrthod** Rwyf wedi esbonio'n fanwl wrth y Pwyllgor ynghylch priodoldeb y pwerau cydredol plws yn y Bil. Dim ond os ymdrinnir â meysydd ar lefel y DU y cymerwn y pwerau hyn. Bydd cynnwys y diwygiad i Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn sicrhau bod Senedd Cymru'n gallu dileu swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â materion datganoledig Cymru heb orfod cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Rwyf wedi ymrwymo i wneud rheoliadau yn Senedd Cymru lle bynnag y bo modd ac wedi dangos yr ymrwymiad hwnnw drwy gynllunio i gyflwyno deddfwriaeth Gymreig mewn perthynas â chynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diod. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i ymateb i'r argymhelliad hwn.
Argymhelliad 2. Os na all y Gweinidog sicrhau gwelliannau i Fil y DU, dylai • roi ymrwymiad y bydd y pwerau 'cydredol plws' yn cael eu dileu cyn gynted â phosibl; a • nodi ei safbwynt ar sefydlu gweithdrefn ffurfiol i lywodraethu cyfranogiad y Senedd mewn penderfyniadau cydsynio mewn perthynas â phwerau 'cydredol plws' ym Mil y DU.	**Derbyn** Mae Egwyddor 7 y canllawiau i Weinidogion Cymru ar gymryd pwerau cydredol yn nodi y dylid dileu swyddogaethau cydredol cyn gynted ag y daw cyfle. Yn unol â'r canllawiau hyn, byddaf yn cadw golwg ar y gofyn am y swyddogaethau cydredol plws hyn. Nid wyf yn credu bod angen sefydlu gweithdrefn ffurfiol i lywodraethu cyfranogiad y Senedd mewn penderfyniadau cydsynio mewn perthynas â phwerau cydredol plws ym Miliau'r DU. Rydym wedi ymrwymo i ysgrifennu at y pwyllgorau polisi perthnasol i'w hysbysu o fwriad i gydsynio, a, lle bo amser yn caniatáu, i roi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn i'r Gweinidogion roi caniatâd. **Goblygiadau ariannol** – Adolygir hyn, a bydd angen adnoddau polisi a chyfreithiol i wneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol er mwyn gallu dileu swyddogaethau cydredol plws wedi hynny.

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod amser ar gael ar gyfer Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd yn ail flwyddyn ei rhaglen ddeddfwriaethol	**Derbyn yr Egwyddor** Mae mynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Nododd y Cwnsler Cyffredinol flwyddyn gyntaf ein rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol ar 6 Gorffennaf a chaiff cyhoeddiad ar y blynyddoedd i ddod ei wneud gan y Prif Weinidog maes o law. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo mewn egwyddor i ddeddfu yn y maes hwn ond mater i'r Llywodraeth fydd penderfynu ar amseriad y Bil. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 4. Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd.	**Derbyn** **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.	**Derbyn yr egwyddor** Caiff penderfyniad ei wneud erbyn diwedd COP 15, sef ar hyn o bryd Mai 2022. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog egluro: • ai Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd yw'r unig gyfrwng addas o fewn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Chweched Senedd i wneud darpariaeth ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol; ac • os felly, sut y bydd hyn yn effeithio ar amseriad cyflwyno'r Bil, os bydd unrhyw effaith.	**Gwrthod** Caiff penderfyniad ei wneud erbyn diwedd COP 15, sef ar hyn o bryd Mai 2022. Caiff cyhoeddiad ei wneud am ddyfodol y rhaglen gan y Prif Weinidog maes o law. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i ymateb i'r argymhelliad hwn.
Argymhelliad 7. Rhaid i'r Gweinidog nodi pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti yn ei	**Derbyn yr Egwyddor** Rwy'n monitro hynt y gwaith yn fy adran i nodi'r risgiau ar gyfer ei gyflawni a lleihau'r risgiau hynny.

hadran, ac adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru, i gyflawni ymrwymiadau deddfwriaethol cyfredol.	**Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i ymateb i'r argymhelliad hwn.
Argymhelliad 8. Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael, neu'n bwriadu eu cael, gyda Llywodraeth y DU ar ddefnyddio Biliau'r DU yn sesiwn Seneddol 2021-22 i ddeddfu dros Gymru ar faterion sy'n dod o fewn ei phortffolio	**Derbyn yr Egwyddor** Byddwn fel arfer yn cydweithio â phwyllgorau ar ôl cyhoeddi'r papurau gwyn a'r ymgynghoriadau ar ddeddfwriaeth y DU, **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i ymateb i'r argymhelliad hwn.
Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ymgynghoriadau mis Mawrth 2021 ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio a'r Cynllun Dychwelyd Ernes, ac ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020 ar leihau plastigau untro, cyn gynted ag sy'n ymarferol.	**Derbyn** Byddaf yn cyhoeddi'r Crynodeb o'r Ymatebion, gan gynnwys y camau nesaf, i ymgynghoriad Gorffennaf 2020 ar leihau plastigau untro ym mis Hydref. Gallaf ddweud wrth y Pwyllgor bod trwch yr ymatebion o blaid cyflwyno gwaharddiad ar yr eitemau hyn. O ran Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diod, rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Defra a'r gwledydd datganoledig eraill i gwblhau ein hymateb i'r ymgynghoriadau. Byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar y cyd maes o law ac yn rhoi gwybod i'r pwyllgor pan fyddant ar gael. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno 'Cynllun Dychwelyd Ernes hollgynhwysol' yng Nghymru, ni waeth a yw Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn penderfynu ar gynllun sy'n gulach ei gwmpas ai peidio.	**Derbyn yr Egwyddor** Mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) ar gyfer 'pob' cynhwysydd hyd at 3lt o ran maint: poteli plastig gwydr a PET, caniau dur ac alwminiwm. Nid yw Llywodraeth y DU a Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi penderfynu eto ar ba fath o gynllun i'w ddewis ar gyfer eu gwledydd. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon fel bod gennym gynllun mor gyson â phosibl ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd yn edrych yn ofalus ar sut y bydd angen i'r cynllun ryngweithio a gweithredu gyda DRS yr Alban. Mae hyn yn cydnabod:

	• Yr heriau i fusnesau a fydd yn gorfod cymryd rhan yn y cynllun sydd â chadwyni cyflenwi integredig ar draws ffiniau. • Heriau ymarferol ei roi ar waith. • Yr angen i leihau dryswch i ddefnyddwyr sy'n byw ger ffiniau Cymru/Lloegr a Lloegr/Yr Alban. Os bydd Lloegr a Gogledd Iwerddon yn penderfynu ar DRS gwahanol yn eu gwledydd, bydd angen inni asesu goblygiadau hyn o ran rhoi'r cynllun ar waith a'i ddyluniad . **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn egwyddor yr argymhelliad hwn. Ystyrir goblygiadau ariannol y cynllun wrth ddatblygu'r cynllun a ddewisir. Y busnesau fydd yn gorfod cymryd rhan ynddo fydd yn ysgwyddo'r costau o'i roi ar waith.
Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer treth neu dâl ar eitemau plastig untro. Dylai hefyd egluro pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad terfynol ar yr opsiwn a ffefrir ganddi.	**Derbyn** Mae'r gwaith hwn wedi dod i stop ar y funud oherwydd diffyg adnoddau. Ar hyn o bryd, ni allaf bennu amserlen ar gyfer y gwaith hwn. Fy ffocws ar hyn o bryd yw cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wahardd y plastigau untro mwyaf cyffredin a geir yn yr amgylchedd morol. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod yn credu ei bod yn briodol cymryd y pwerau i godi tâl am blastigau untro ym Mil y DU pan nad yw'n eglur a fydd angen y pwerau hynny	**Derbyn** Yn ein Strategaeth Economi Gylchol, Mwy nag Ailgylchu, rydym wedi ymrwymo i ystyried sut y gallem ddefnyddio'r pwerau newydd i godi tâl ar gwpanau plastig untro a chynwysyddion bwyd. Trwy gymryd y pwerau hyn ym Mil y DU, rydym yn cael cadw'r opsiwn hwn fel arf i gyflawni ein hymrwymiad i leihau effaith amgylcheddol plastigau untro **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar weinyddiaethau eraill y DU i gytuno ar ffordd ymlaen a fyddai'n ei galluogi i gyflwyno gwaharddiad	**Derbyn** Mae trafodaethau rhwng llywodraethau'n mynd rhagddynt ynghylch y gwaharddiadau fel rhan o Gytundebau'r Fframwaith Cyffredin ar ôl Brexit. Rydyn ni'n archwilio pob opsiwn. Rydyn ni'n

ar blastigau untro sy'n cyflawni ei huchelgais llawn o ran polisi.	ymrwymo i wireddu'n llawn uchelgais ein polisi ar blastigau. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn pen dau fis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ar y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno cynigion ar gyfer gwahardd plastigau untro	**Derbyn** Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein crynodeb o'r ymatebion ym mis Hydref. Bydd yn nodi'n fanwl y camau nesaf ar y mater hwn. Bydd y pwyllgor yn deall bod cyflawni'r polisi hwn yn fater cymhleth oherwydd Deddf Marchnad Fewnol y DU. Rwyf wedi ymrwymo i wireddu uchelgais ein polisi i wahardd y defnydd o'r plastigau untro sy'n cael eu taflu'n sbwriel fwyaf. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru) cyn gynted ag sy'n ymarferol. Dylai'r adroddiad gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill o ddatblygiad y Bil.	**Derbyn yr egwyddor** Mae swyddogion wrthi'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion y Papur Gwyn ar gyfer Bil Aer Glân i Gymru. Cafwyd cefnogaeth i'r cynigion a'n nod yw cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion erbyn diwedd mis Hydref 2021. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno'r Bil Aer Glân (Cymru) yn ail flwyddyn ei rhaglen ddeddfwriaethol.	**Derbyn yr egwyddor** Mae mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Nododd y Cwnsler Cyffredinol flwyddyn gyntaf ein rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol ar 6 Gorffennaf a chaiff cyhoeddiad ar y blynyddoedd i ddod ei wneud gan y Prif Weinidog maes o law. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo mewn egwyddor i ddeddfu yn y maes hwn ond mater i'r Llywodraeth fydd penderfynu ar amseriad y Bil. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i ymateb i'r argymhelliad hwn.
Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud	**Derbyn** **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.

rheoliadau gan ddefnyddio pwerau o dan Ran 5.	
Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog egluro pam mae'r pwerau cyfarwyddo yn Rhan 5 yn angenrheidiol, a nodi'r meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid arfer y pwerau hyn.	**Derbyn** Mae'r pwerau Cyfarwyddo yn Rhan 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo ymgymerwyr carthffosiaeth i nodi'r cyfnod cynllunio yn eu cynlluniau. Maent yn rhoi cyfarwyddyd hefyd i baratoi cynllun newydd os yw'r adolygiad blynyddol o'r cynlluniau yn dangos bod yr amgylchiadau wedi newid yn sylweddol. Maent hefyd yn rhoi pwerau i'r Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau fynd i'r afael ag unrhyw faterion penodol nad ydynt wedi'u rhestru yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, a'r ffurf y mae'n rhaid i gynllun ei chymryd. Cyn cyhoeddi unrhyw gyfarwyddiadau, byddwn yn ymgynghori â'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, CNC, a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae Rhan 5 hefyd yn rhoi pwerau i'r Gweinidog allu cyfarwyddo dau neu fwy o ymgymerwyr dŵr i baratoi a chyhoeddi cynnig ar y cyd er mwyn gwella'r gwaith o reoli a datblygu adnoddau dŵr. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyhoeddi Cyfarwyddyd o'r fath, a dim ond ar ôl ymgynghori â'r ymgymerwyr dŵr yr effeithir arnynt, CNC ac Ofwat y byddai'n gwneud hynny. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog egluro ymhellach pam y cred ei bod yn briodol defnyddio cytundeb anffurfiol nad yw'n rhwymol i ddatrys yr anghydfod â Llywodraeth y DU ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol o ran y darpariaethau mewn perthynas â defnyddio nwyddau coedwigaeth.	**Derbyn** Gwnaethom roi ein dadl o blaid cymhwysedd yn gryf i Defra ond gwnaethant ei gwrthod gan fynnu nad oes angen caniatâd. Mae'n dilyn felly nad ydynt yn cydnabod bod gennym rôl ffurfiol wrth ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, rydym wedi trafod cynnwys polisi ar ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth a chael cadarnhad ysgrifenedig y byddant yn cadw at yr ymrwymiad hwn. Yng ngoleuni hyn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â thîm polisi Defra yn rheolaidd i drafod datblygu ymgynghoriad cyhoeddus i'w gynnal ar lefel y DU yn ail hanner eleni ar y rheoliadau. Y camau nesaf fydd gweithio gyda Defra wrth i'r ymgynghoriad ddatblygu a chynghori ar bwy y dylid ymgynghori â nhw yng Nghymru. **Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.